**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 26 Hydref 2017 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | S E Crouch | J P Curtice |
| N J Davies | A M Day | P Downing |
| C R Doyle | M Durke | V M Evans |
| C R Evans | E W Fitzgerald | R Francis-Davies |
| S J Gallagher | L S Gibbard | F M Gordon |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | B Hopkins | D H Hopkins |
| O G James | L James | Y V Jardine |
| M H Jones | S M Jones | P Jones |
| L R Jones | J W Jones | E J King |
| E T Kirchner | M A Langstone | M B Lewis |
| R D Lewis | W G Lewis | A S Lewis |
| P Lloyd | I E Mann | P M Matthews |
| P N May | H M Morris | D Phillips |
| C L Philpott | S Pritchard | A Pugh |
| J A Raynor | C Richards | K M Roberts |
| B J Rowlands | M Sherwood | R V Smith |
| A H Stevens | R C Stewart | D G Sullivan |
| G J Tanner | L G Thomas | W G Thomas |
| M Thomas | L J Tyler-Lloyd | L V Walton |
| T M White | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): W Evans, K M Griffiths, J A Hale, C E Lloyd, P B Smith a/ac M Sykes

---

## 87. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad

oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr M B Lewis ac L G Thomas fudd personol yng Nghofnod 94 "Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2016-2017".

2) Datganodd y Cynghorwyr D W Helliwell, P R Hood-Williams, O G James, J W Jones, M H Jones, L J Jones, M A Langstone, W G Thomas ac L V Walton fudd personol yng Nghofnod 99 "Cynnig i gymeradwyo addewid newydd i beidio â chyflwyno trwyddedau casino a diwygiadau arfaethedig i bolisi gamblo'r cyngor".

3) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson ac M Duke fudd personol a rhagfarnol yng Nghofnod 99 "Cynnig i gymeradwyo addewid newydd i beidio â chyflwyno trwyddedau casino a diwygiadau arfaethedig i bolisi gamblo'r cyngor". a gadawon nhw cyn y drafodaeth.

4) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, J P Curtice, J W Jones, M H Jones, W G Lewis, S M Pritchard, D G Sullivan a T M White fudd personol yng Nghofnod 100 "Diwygiadau i'r Cyfansoddiad."

## 88. Cofnodion.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod arbennig o'r cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017;

2) Cyfarfod cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017.

## 89. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y cyngor.

## 90. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Cydymdeimladau

### a) Cyn-gynghorydd A C S (Tony) Colburn

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd Tony Colburn. Gwasanaethodd y Cyn-gynghorydd Colburn Ward Etholiadol Ystumllwynarth rhwng 1 Mai 2017 a 4 Mai 2017.

**b) Ruth Thomas, Mam-gu'r Cynghorydd Clive E Lloyd**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Ruth Thomas, mam-gu'r Cyng. Clive Lloyd.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**2) Cydnabyddiaeth/Gwobrau**

**a) Gwasanaeth Tîm am y Teulu (TAT)**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at Wasanaeth Tîm am y Teulu (TAT) a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer anrhydeddau yng Ngwobrau Gwasanaethau Cyhoeddus y Guardian 2017. Mae'r fenter hon yn cefnogi plant ac mae'n lleihau'r pwysau ar y cyngor yn sylweddol drwy rymuso staff ysgolion cynradd i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol cynnar a wynebir gan deuluoedd. Llongyfarchodd bawb sydd ynghlwm â'r gwasanaeth a ddymunodd bob lwc iddyn nhw ar gyfer y gwobrau ym mis Tachwedd.

**b) Tîm Cyfreithiol Gofal Plant**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at y Tîm Cyfreithiol Gofal Plant a gyrhaeddodd y rhestr fer yn y Gwobrau Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol ar gyfer 2017. Mae'r wobr ar gyfer Tîm sy'n Ymwneud â Phobl y Flwyddyn, sy'n cydnabod cyflawniad rhagorol gan Dîm Awdurdod Lleol mewn unrhyw faes sy'n ymwneud â phobl, gan gynnwys deddf plant, gofal cymdeithasol i oedolion, iechyd a chyflogaeth.

Llongyfarchodd y tîm am y gydnabyddiaeth wych hon gan gyfoedion. Mae hwn yn gyflawniad gwych oherwydd ei bod yn wobr ledled y DU a bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi ar 24 Tachwedd 2017 yn Birmingham.

**c) Gwobrau GO Cymru, Rhagoriaeth mewn Caffael Cyhoeddus**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at ddwy o fentrau Cyngor Abertawe sydd wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau GO Cymru, Rhagoriaeth mewn Caffael Cyhoeddus.

Mae Y Tu Hwnt i Frics a Morter wedi cyrraedd y rhestr yn y categori Arloesedd Caffael mewn Llywodraeth a Thai. Mae cyflwyniad ar y cyd rhwng Gofal Cymdeithasol i Oedolion, y Tîm Caffael a'r Tu Hwnt i Frics a Morter hefyd wedi cyrraedd y rhestr fer yn y Categori Arloesedd Caffael mewn Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

**d) Ysgol Gynradd San Helen - Gwobrau Addysgu Pearson**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at Mark Thompson, sy'n arwain Ysgol Gynradd San Helen. Bydd Mr Thompson yn mynd i rownd derfynol arbennig Gwobrau Addysgu Pearson yn Llundain yn fuan lle mae wedi cyrraedd rhestr fer y Wobr Aur yng nghategori Pennaeth y Flwyddyn. Cafwyd trawsnewidiad anhygoel yn

San Helen, o ran ei ymddangosiad ffisegol a chyflawniad a phresenoldeb disgyblion. Cydnabu Marc am ei arweinyddiaeth arbennig pan ddaeth yn fuddugol yn y categori yng Nghymru yn gynharach eleni.

**e) Dechrau'n Deg**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at un o brosiectau Dechrau'n Deg Cyngor Abertawe sydd wedi cael adroddiad arolygu gwych gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Ystyriodd arolygwyr bedwar maes ym mhrosiect Seaview a rhoddwyd y dyfarniadau canlynol:

Rhagorol - "Lles Plant" ac "Amgylchedd";
Da - "Gofal a Datblygiad" ac "Arweinyddiaeth a Rheolaeth".

**f) Pencampwriaethau Para-Tenis Bwrdd Ewrop**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at Paul Karabardak o'r Cocyd. Dechreuodd Mr Karabardak chwarae tenis bwrdd gydag elusen yn Abertawe, "Ffrindiau'r Anabl Ifanc" lawer o flynyddoedd yn ôl. Enillodd fedal aur i Dîm PF yn ddiweddar ym Pencampwriaethau Para-Tenis Bwrdd 2017 yn Slofenia.

**g) Gemau Invictus - Toronto 2017**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at Matthew Neve o'r Crwys. Roedd Mr Neve yn Uwch-awyrluyddwr yn yr Awyrlu Brenhinol cyn iddo gael ei ryddhau yn 2004. Mae ei broblemau iechyd meddwl wedi arwain at nifer o heriau gan gynnwys iselder, diffyg hunanwerth a phwrpas. Ers iddo gychwyn saethyddiaeth, mae Matt wedi defnyddio'r gamp i roi ffocws i'w fywyd eto a'i helpu ar ei daith i wella.

Nododd yr Aelod Llywyddol ei fod wrth ei fodd i gyhoeddi bod Matthew wedi ennill medal aur am saethyddiaeth yn y Gemau Invictus - Toronto 2017.

**3) Diwygiadau/ychwanegiadau at wŷs y cyngor**

***Eitem 13 "Diwygiadau i'r Cyfansoddiad"***
Nododd yr Aelod Llywyddol fod darn diwygiedig o Baragraff 3.5 yr adroddiad wedi'i rannu.

***Eitem 14, "Aelodaeth Pwyllgorau"***
Datganodd yr Aelod Llywyddol fod adroddiad diwygiedig wedi'i rannu.

***Hysbysiad o Gynnig Brys***
Nododd yr Aelod Llywyddol ei fod wedi derbyn Hysbysiad o Gynnig Brys mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol. Roedd yr Hysbysiad o Gynnig wedi'i rannu.

## 91. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### a) Cynghorydd Hyrwyddwr dros Grefydd ac Etifeddiaeth

Nododd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi penodi'r Cynghorydd Sam Pritchard yn Gynghorydd Hyrwyddwr dros Grefydd ac Etifeddiaeth.

### b) Y Diweddaraf am y Fargen Ddinesig

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor y diweddaraf am y Fargen Ddinesig.

### c) Ymweliad Dinas Diwylliant

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i bawb a fu ynghlwm wrth sicrhau bod ymweliad Pwyllgor y Cais ag Abertawe yn llwyddiannus.

### ch) Ymweliad Skyline (Seland Newydd)

Nododd Arweinydd y Cyngor fod Skyline (Seland Newydd) wedi ymweld ag Abertawe yn ddiweddar fel rhan o geisio lleoliad yn Ewrop ar gyfer chwaraeon eithafol a bwyty 5 seren ar Fynydd Cilfái.

### d) Stadiwm Liberty

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor y diweddaraf am y trafodaethau parhaus â Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe mewn perthynas â Stadiwm Liberty.

### e) E-bleidleisio

Nododd Arweinydd y Cyngor y byddai cyfarfodydd y Cabinet yn defnyddio system e-bleidleisio Siambr y Cyngor yn hwyrach yn 2017 a byddai'r system yn cael ei defnyddio yn ehangach wedi i'r profion gael eu cynnal.

### f) Gweddarlledu

Nododd Arweinydd y Cyngor byddai'r tendr gweddarlledu yn cael ei gyflwyno yn hwyrach yn 2017. Byddai hyn, mewn amser, yn caniatáu i gyfarfodydd penodol gael eu gweddarlledu.

## 92. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar unrhyw gwestiynau.

## 93. Cyflwyniad Cyhoeddus - dim.

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

## 94. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2016-2017.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Jill Burgess, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2016/2017, er gwybodaeth. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno gwaith y Pwyllgor Safonau rhwng 19 Mai 2016 a 24 Mai 2017.

## 95. Eitem Frys

Yn unol â pharagraff 100B (4) (b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd yr Aelod Llywyddol y dylid ystyried yr "Hysbysiad o Gynnig Brys a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr R C Stewart, C E Lloyd, J A Raynor, D H Hopkins, R Francis-Davies, M Thomas, J E Burtonshaw, M Sherwood, M C Child, A S Lewis, W Evans a C A Holley" yn y cyfarfod mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol.

## 96. Rhybydd o Gynnig Brys - Cynghorwyr R C Stewart, C A Holley, C E Lloyd, J A Raynor, D H Hopkins, R Francis-Davies, M Thomas, J E Burtonshaw, M Sherwood, M C Child, A S Lewis, W Evans, M H Jones, E W Fitzgerald and D G Sullivan

**Rheswm dros y Cynnig Brys:** ar sail cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn fuan iawn.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd R C Stewart ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd C A Holley.
*"Mae'r cyngor yn cytuno bod bwriad Credyd Cynhwysol (CC) i wneud budd-daliadau yn llai cymhleth a chaniatáu i'r rhai mewn gwaith tâl isel gadw mwy o'u cyflog yn syniad da, ond mae'n meddwl bod y dystiolaeth yn dangos bod proses Credyd Cynhwysol yn ddiffygiol ac yn achosi caledi diangen i deuluoedd lleol. Mae'r Cyngor yn nodi y cafodd y CC ei gyflwyno'n araf yn fwriadol fel y gellid gweld a chywiro unrhyw broblemau cyn i'r budd-dal gael ei gyflwyno i'r holl hawlwyr.*

*Mae'r cyngor yn nodi bod tystiolaeth y cyngor hwn a chynghorau eraill ar draws y wlad yn dangos bod CC yn achosi cynnydd enfawr mewn ôl-ddyledion rhent ac, yn gyffredinol, lefelau dyled ymhlith pobl, nad yw llawer ohonynt wedi bod mewn dyled o'r blaen. Yn ogystal â hyn, mae tystiolaeth yn dangos bod y rhan fwyaf o landlordiaid preifat a hyd yn oed rhai cymdeithasau tai yn gwrthod derbyn tenantiaid sy'n derbyn CC, sy'n arwain at gynnydd yn nifer y rhai sy'n cofrestru'n ddi-gartref ac yn ceisio llety dros dro.*

*Mae'r cyngor felly wedi penderfynu y dylai'r Arweinydd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar ran y cyngor, i wneud y pwyntiau hyn a gofyn bod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r problemau hyn, ac yn gohirio cyflwyno CC nes bod y problemau'n cael eu datrys."*

Cynigiodd y Cynghorydd R C Stewart ddiwygiad i'r paragraff olaf gan ofyn i Arweinwyr yr holl Grwpiau Gwleidyddol ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau. Nododd y Cynghorydd C A Holley ei fod wedi derbyn y diwygiad.

Felly, roedd sylwedd yr Hysbysiad o Gynnig Brys fel a ganlyn:

*"Mae'r cyngor yn cytuno bod bwriad Credyd Cynhwysol (CC) i wneud budd-daliadau yn llai cymhleth a chaniatáu i'r rhai mewn gwaith tâl isel gadw mwy o'u cyflog yn syniad da, ond mae'n meddwl bod y dystiolaeth yn dangos bod proses Credyd Cynhwysol yn ddiffygiol ac yn achosi caledi diangen i deuluoedd lleol. Mae'r Cyngor yn nodi y cafodd y CC ei gyflwyno'n araf yn fwriadol fel y gellid gweld a chywiro unrhyw broblemau cyn i'r budd-dal gael ei gyflwyno i'r holl hawlwyr.*

*Mae'r cyngor yn nodi bod tystiolaeth y cyngor hwn a chynghorau eraill ar draws y wlad yn dangos bod CC yn achosi cynnydd enfawr mewn ôl-ddyledion rhent ac, yn gyffredinol, lefelau dyled ymhlith pobl, nad yw llawer ohonynt wedi bod mewn dyled o'r blaen. Yn ogystal â hyn, mae tystiolaeth yn dangos fod y rhan fwyaf o landlordiaid preifat a hyd yn oed rhai cymdeithasau yn gwrthod derbyn tenantiaid sy'n derbyn CC, sy'n arwain at gynnydd yn nifer y rhai sy'n cofrestru'n ddi-gartref ac yn ceisio llety dros dro.*

*Mae'r cyngor felly wedi penderfynu y dylai'r Arweinydd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar ran y cyngor, i wneud y pwyntiau hyn a gofyn bod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r problemau hyn, ac yn gohirio cyflwyno CC nes bod y problemau'n cael eu datrys."*

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor, "Pleidleisio", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y bleidlais fel a ganlyn:

| **O blaid (63 o gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | B Hopkins | D Phillips |
| P M Black | D H Hopkins | C L Philpott |
| J E Burtonshaw | O G James | S Pritchard |
| M C Child | L James | A Pugh |
| S E Crouch | Y V Jardine | J A Raynor |
| J P Curtice | J W Jones | C Richards |
| N J Davies | L R Jones | K M Roberts |
| A M Day | M. H. Jones | B J Rowlands |
| P Downing | P Jones | M Sherwood |
| C R Doyle | S M Jones | R V Smith |
| M Durke | E J King | A H Stevens |
| C R Evans | E T Kirchner | R C Stewart |
| V M Evans | M A Langstone | D G Sullivan |
| E. W. Fitzgerald | A S Lewis | G J Tanner |
| R Francis-Davies | M B Lewis | D W W Thomas |
| S J Gallaher | R D Lewis | L G Thomas |
| L S Gibbard | W G Lewis | M Thomas |
| D W Helliwell | P Lloyd | W G Thomas |
| T J Hennegan | I E Mann | L J Tyler-Lloyd |
| C A Holley | P M Matthews | L V Walton |
| P R Hood-Williams | H M Morris | T M White |
| **Yn erbyn (0 cynghorydd)** | | |
| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
| - | - | - |

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig.

## 97. Datganiad cyllideb ganol blwyddyn 2017/18. (Diweddariad ar lafar)

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 gyflwyniad ar Ddatganiad Cyllidebol Canol Tymor 2017-2018. Nododd berfformiad ariannol y flwyddyn bresennol yn ogystal ag asesiad wedi;i ddiweddaru o ofynion arbed dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor ddatganiad hefyd.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cyflwyniad.

## 98. Adolygu'r refeniw wrth gefn.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu'r adolygiad canol blwyddyn o sefyllfa'r Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a chytuno ar unrhyw ailddosbarthiad awgrymedig o'r cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar ofynion presennol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi a chadarnhau adrannau 3.13 a 3.16 yr adroddiad.

## 99. Cynnig i dderbyn penderfyniad newydd i beidio â chyflwyno trwyddedau casino a diwygiadau arfaethedig i Bolisi Gamblo'r cyngor

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd adroddiad a oedd yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynnig i gymeradwyo addewid newydd i beidio â chyflwyno trwyddedau mangre casino; a chynigiodd ddiwygiadau i Ddatganiad o Egwyddorion Dinas a Sir Abertawe (Polisi Gamblo).

**Penderfynwyd:**

1) Ystyried canlyniad yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynnig i gymeradwyo addewid newydd i beidio â chyflwyno trwyddedau mangre casino a diwygiadau arfaethedig i Ddatganiad o Egwyddorion Dinas a Sir Abertawe (Polisi Gamblo);

2) Ystyried y materion a nodir ym mharagraff 4 yr adroddiad a chytuno ar addewid newydd i beidio â chyflwyno trwyddedau mangre casino;

3) Cytuno ar y diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Gamblo ar gyfer ei gyhoeddi ar ffaith ei fod yn pennu 6 Rhagfyr 2017 fel y dyddiad y bydd yr addewid yn dod i rym.

## 100. Newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i wneud diwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd y newidiadau arfaethedig mewn perthynas â'r rhan ganlynol o Gyfansoddiad y Cyngor:

i) Rhan 3 "Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau", "Cylch Gorchwyl", "Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol".

Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu a gwnaeth ychydig o ddiwygiadau eraill hefyd.

**Penderfynwyd:**

1) Mabwysiadu'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel a amlinellir isod:

*“Rhan 3 – Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau – Cylch Gorchwyl”. 2.4.4. Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol*

*a) **Ei dynnu** o Ran 3 "Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau - Cylch Gorchwyl";*

*b) **Ei ailenwi** fel "Gweithdrefn Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a'i ychwanegu at Ran 4 "Rheolau Gweithdrefnol" Cyfansoddiad y Cyngor.*

*c) **Er ailddrafftio** fel a ganlyn:*

*1. Caiff pob Penodiad Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol ei wneud gan y Cabinet yn dilyn argymhelliad gan y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a cheisir barn y Cynghorydd neu'r Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r ward neu'r wardiau yn nalgylch yr ysgolion am y broses gwneud penderfyniadau (y cyfeirir ato/i neu atynt yn y ddogfen hon fel y Cynghorydd neu'r Cynghorwyr Lleol).*

*2. Bydd y Prif Swyddog Addysg, ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Cynghorydd neu'r Cynghorwyr Lleol yn ystyried unrhyw geisiadau yn unol â matrics sgiliau ar y cyd â chais pob llywodraethwr unigol a fydd yn cynnwys disgrifiad bras gan yr ymgeisydd am y profiad a'r wybodaeth y gallai eu cynnig i'r Corff Llywodraethu.*

*3. Caiff Ffurflen Gais Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol ei diwygio i gynnwys cyfle i ymgeiswyr gynnwys manylion (hyd at 300 o eiriau)*

*am brofiad, gwybodaeth a sgiliau i ddangos sut bydd eu penodi nhw yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran sgiliau a nodwyd ym matrics sgiliau corff llywodraethu'r ysgol.*

*4.* *Bydd y Prif Swyddog Addysg, Aelod y Cabinet a'r Cynghorydd neu'r Cynghorwyr Lleol yn gwneud argymhellion am benodi'r llywodraethwr yr ystyrir bod ganddo'r sgiliau oar arbenigedd mwyaf priodol i gefnogi a herio'r corff llywodraethu, ac yn gwneud argymhellion i'r Cabinet o ran llenwi swyddi gwag ar Gyrff Llywodraethu.*

*5.* *Ceisir barn y Cynghorydd neu'r Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r ward neu'r wardiau yn y dalgylch am y broses gwneud penderfyniadau.*

*6.* *Defnyddir y meini prawf canlynol wrth ystyried ceisiadau:*

*a.* *Yn gyntaf, y Cynghorydd neu'r Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r ward neu'r wardiau yn nalgylch yr ysgol berthnasol os ydynt yn bodloni'r meini prawf sgiliau a ddarperir gan yr ysgol. Bydd yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr yn helpu Cynghorwyr i feddu ar y sgiliau hynny (lle y bo'n bosib) drwy ddefnyddio'r cyrsiau hyfforddiant sydd ar gael yn yr awdurdod. Mae cofnod hyfforddi pob cynghorydd ar gael yn www.abertawe.gov.uk/article/2617/Cynghorwyr;*

*b. Yn ail, os nad yw'r Cynghorydd neu'r Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r ward neu'r wardiau yn nalgylch yr ysgol berthnasol yn mynegi diddordeb, caiff y swydd ei chynnig i Gynghorwyr eraill yr awdurdod lleol os yn bodloni'r meini prawf sgiliau a ddarperir gan yr ysgol;*

*c.* *Ar ôl dilyn y meini prawf uchod, cynigir swyddi gwag i bobl a fyddai, ym marn y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn addas ar gyfer rôl Llywodraethwr ac a fyddai'n cyfrannu'n effeithiol at yr ysgol o ran sgiliau a phrofiad wrth fodloni'r meini prawf sgiliau a ddarperir gan yr ysgol.*

*7.* *Ym mhob un o'r categorïau uchod, pan fydd mwy o ymgeiswyr na swyddi gwag, argymhellir cynrychiolwyr yr awdurdod lleol i'r Cabinet ar sail pwy, ym marn y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Cynghorydd neu'r Cynghorwyr Lleol, fyddai'n cyfrannu'n fwyaf effeithiol at reoli'r ysgol dan sylw o ran y meini prawf sgiliau a ddarperir gan yr ysgol.*

*8.* Bydd y Prif Swyddog Addysg, ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Cynghorydd neu'r Cynghorwyr Lleol yn derbyn, yn trafod ac yn pennu unrhyw sylwadau a wneir iddynt pan fyddant yn gwneud unrhyw newidiadau i gynrychiolaeth ar Gorff Llywodraethu penodol.

*9. Bydd y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Cynghorydd neu'r Cynrychiolwyr Lleol yn clywed unrhyw gais a wneir iddyn nhw i dynnu Llywodraethwr ALl yn unol â Rheoliad 27 Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 ac yn gwneud argymhelliad i'r Cabinet am gymeradwyaeth.*

*10. Bydd y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Cynghorydd neu'r Cynghorwyr Lleol yn disgwyl i'r holl Lywodraethwr newydd eu penodi wneud hyfforddiant llywodraethwyr hanfodol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru o fewn blwyddyn wedi iddynt dderbyn y swydd er mwyn eu paratoi am eu rôl a gwella eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldeb i herio a chefnogi'r ysgol a'r Pennaeth.*

*11. Rhaid cyflwyno ceisiadau ddim hwyrach na 7 niwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod/trafodaeth y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Cynghorydd neu'r Cynghorwyr Lleol a chaiff ceisiadau hwyr eu hystyried yn ôl eu disgresiwn yn unig."*

## 101. Aelodaeth Pwyllgorau.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes fod adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi bod Arweinydd y Cyngor hefyd wedi gwneud y newidiadau canlynol i gyrff allanol yr awdurdod:

**1) Coleg Gŵyr Abertawe**
Tynnu enw'r Cynghorydd J A Raynor.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd K M Roberts.

**Penderfynwyd:**

**1)** Diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**i) Panel Herio**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr J E Burtonshaw, N J Davies, H M Morris, M Sherwood ac M Sykes.
Ychwanegu enwau'r Cynghorwyr C Anderson, M B Lewis, P Lloyd, S Pritchard a T M White.

**ii) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Diogelu**
Tynnu enw'r Cynghorydd K M Roberts.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd C Anderson.

## 102. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) Rhan A 'Cwestiynau Atodol’

Cyflwynwyd deg (10) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar gyfer unrhyw gwestiynau atodol.

### 2) Rhan B ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.45 pm

**Cadeirydd**